YR • YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] HYDREF, 1902. [CYF. II. RHIF 10.

NODION Y MIS.

MAE "Phillips Horeb," enw adnabyddus trwy yr holl Dywysogaeth, yn ei fedd, ac un o'r pethau diweddaf ysgrifenodd e' oedd yr erthygl ar ei hen athraw—y Parch. Titus Evans, a ymddangosodd yn YR YMOFYNYDD am Mawrth diweddaf. Bu farw Medi yr 8fed, yn 63 oed. Gorphwys yr hyn oedd farwol o hono yn mynwent Capel Seion, Llandyssul. Yr oedd yr angladd yn un o'r rhai mawrion hyny ag y cara Cymru anrhydeddu ymadawiad y rhai ydynt wedi llanw lle o bwys a dylanwad yn ei hanes crefyddol. Yr oedd yn un o'r gweinidogion mwyaf derbyniol a chymeradwy yn y pwlpud Cymreig, wedi ei gymhwyso gan natur a chan yr ymroddiad llwyraf i'w waith, i wneud y pwlpud hwnw y cyfrwng mwyaf effeithiol posibl i gyhoeddi yr Efengyl, fel y deallai ef hi, yn allu Duw er iachawdwriaeth i'r byd. Heblaw bod yn bregethwr o radd uchel yr oedd yn fugail llafurus yn mhlith ei eglwysi, bob amser yn dal i fyny *ideal* uchel o ddyledswyddau y gweinidog Cristionogol. Ac yn goron ar y cwbl, yr oedd ei gymeriad diargyhoedd a difrycheulyd, fel yr adnabyddid ef yn yr un ardal am ddeugain mlynedd, yn dwyn tystiolaeth fod y gair a bregethai wedi ei wneuthur yn gnawd, ac yn ymsymud oddiamgylch, yn esiampl o'r grasusau hyny sydd yn gwneud Cristionogaeth yn yspryd ac yn fywyd.

Beth sydd yn y gair "heresi," fel y rhaid i Gristionogion ei ofni gymaint? Yr ystyr gyffredin gysylltir ag ef yw cred gamsyniol, neu syniad gwahanol i'r hyn gredir yn gyffredin gan y mwyafrif ar ryw bwnc o grefydd. Er enghraifft, cred y mwyafrif o Gristionogion fod Tri o bersonau yn y Duwdod; tra y deil ereill, llai lluosog eu nifer, nad oes ond Un person yn y Duwdod. Ystyrir y dyb olaf gan y blaid gyntaf yn heresi, a'r rhai a'i cred yn hereticiaid. Ond nid yw'r gair yn wreiddiol yn dynodi syniad gau. Gair o darddiad Groegaidd

ydyw, a dynoda 'ddewisiad'; ac mewn perthynas i syniadaeth grefyddol, defnyddid ef i ddynodi y weithred o ddewis a dal syniadau croes i'r hyn gredid gan y mwyafrif. Yr oedd gwaith Luther yn gadael yr Eglwys Babaidd yn heresi, ac yr oedd Luther yn heretic. Felly hefyd, mae pob un sydd wedi tori cysylltiad ag un eglwys a ffurfio eglwys newydd yn euog o'r un pechod (os pechod hefyd), megis Wesley, Whitfield, a llu o enwogion eraill, enwau y rhai ydynt yn eiriau teuluaidd yn rhengoedd iawnffyddiaeth ein dyddiau ni. Mewn gair, mae pob un a adawa un llwybr ac a ddewisa un arall yn heretic. Hereticiaid ydynt yr arweinwyr rhag-blaen (*pioneers*) yn myd y meddwl crefyddol.

I ni mae pob achos o heresi yn ddyddorol. Felly pan y gwelsom ychydig amser yn ol fod y cyhuddiad o heresi i gael ei ddwyn yn erbyn Dr. Beet, un o athrawon Coleg Wesleyaidd Richmond, edrychem yn mlaen yn awyddus at y Gynhadledd yn Awst, pan y dygid y mater ger bron. Mae Dr. Beet, yn ychwanegol at fod yn athraw galluog a llwyddianus yn y Coleg uchod, wedi enill iddo ei hun enwogrwydd fel ysgolhaig Beiblaidd o'r radd flaenaf, ac y mae wedi cyhoeddi amryw lyfrau a ystyrir yn safonol. Felly nid dyn cyffredin ydyw. Beth oedd y cyhuddiadau ddygid yn ei erbyn? O gylch y pwnc o dragwyddol gosp yr anedifeiriol y troseddodd. Ychydig flynyddau yn ol, cyhoeddodd lyfr, yn yr hwn y traethai syniadau ar y pwnc uchod oeddynt yn amlwg yn anghyson a'r hyn oedd syniadau safonol yr Eglwys Wesleyaidd. Yr adeg hono, fodd bynag, llwyddwyd i'w ddarbwyllo i beidio cyhoeddi rhagor o'r llyfr dan sylw. Yn ddiweddar, cyhoeddodd lyfr arall [gweler Adolygiad o hono yn Rhifyn Medi] ar "Anfarwoldeb yr Enaid," yn yr hwn y traethai syniadau cyffelyb drachefn. A pha beth yw safle'r Dr. ar y pwnc? Nid yw mewn un modd yn gwadu'r athrawiaeth o dragwyddol gosp. Yn hytrach, cred hi mor drwyadl a neb o'i gyhuddwyr. Ond deil nad yw'r Ysgrythyrau yn bendant yn dysgu nac yn gwadu parhad yr enaid ar ol angeu; ac er nad ydynt yn rhoi i ni un gobaith y bydd i ing y colledig byth i ddarfod, eto *nad ydynt yn eglur yn datgan ei barhad.* Y gosodiad olaf, mae'n debyg, yw cnewyllyn y trosedd. Beth fu terfyn yr achos? Nad oedd y Gynhadledd i gymeryd mesurau pellach yn y mater, ar yr amod fod Dr. Beet yn ymrwymo *i beidio dysgu* o'r pwlpudau ac yn nghlyw ei ddysgyblion yr athrawiaeth y cwynid o'i phlegid; a hefyd i beidio cyhoeddi dim ar y pwnc heb ganiatad y Gynhadledd. Rhoddodd Dr. Beet yr ymrwymiad; ac felly mae heddwch unwaith eto yn teyrnasu yn y teulu Wesleyaidd.

Beth ddywedwn am y fath derfyniad? Er fod yr athrawiaeth o dragwyddol gosp i ni yn wrthun a barbaraidd, ac yn un sydd yn

rhwym o gilio o'r ffordd o flaen rheswm a theimlad goreu dyn; eto, os yw ei chredu yn dwyn rhyw gymaint o foddlonrwydd i'n cyd-Gristionogion, nid ein dymuniad ni yw eu rhwystro, pe gallem. Os mai cred y Wesleyaid yw fod Duw yn damnio pob dyn os na wna dderbyn Wesleyaeth, neu ryw aeth arall o'r un natur, glynent wrthi o'n rhan ni. Ac y mae yn amlwg fod y syniad hwn yn rhan o'i chredo—fod yr anedifeiriol i gael ei boenydio am dragwyddoldeb; ac ni chaniateir i neb (yn ol rheolau'r Eglwys) i gredu dim yn wahanol i hyn, a pharhau yn aelod o'r cyfundeb. Os felly, beth ddywedwn am waith y Gynhadledd yn caniatau i Dr. Beet, yr hwn heb amheuaeth oedd euog o'r cyhuddiad a ddygid yn ei erbyn, i barhau yn y swydd bwysig o athraw i fobl ieuainc yn ymbarotoi ar gyfer y weinidogaeth? A pha beth a ddywedwn, hefyd, am ddyn o safle Dr. Beet yn cymeryd ei ddystewi ar un o bynciau mwyaf pwysig cred? Ni ellir defnyddio un gair arall ond 'dystewi'; oherwydd anmhosibl yw i neb i fogi argyhoeddiadau dyfnaf y meddwl a'r enaid dynol. O hyn allan, a barnu oddiwrth yr hyn a wnawd yn yr achos dan sylw, bydd hawl gan unrhyw Wesleyad i ddal syniadau gwrthwynebol i'r 'gred safonol,' ond iddo beidio eu cyhoeddi. Mae hon yn safle anfoddhaol iawn, a sicr ydym nas gall barhau yn hir.

GWEINIDOGION UNDODAIDD FEL YSGOLFEISTRI AC ATHRAWON.

V.—Y Parch. Owen Evans, Cefncoedcymer, (1808—65).

Gan y Parch. Rowland Rowlands, Barrett's Grove, Llundain.*

AR foreu Sadwrn yn mis Mai 1862, y cefais y fraint o weled y boneddwr parchus uchod am y tro cyntaf. Aethum i'r Cefn, Merthyr, yn ol cyfarwyddyd fy ngweinidog—y diweddar Barch. David Hughes, B.A., Tredegar, i ymgynghori a Mr. Evans gyda

* Ganwyd Mr. Rowlands tua chanol y ganrif ddiweddaf, yn Llanwrin, ger Machynlleth, y plwyf lle y trigiana yr enwog ysgolor Cymreig, Canon Silvan Evans. Symudodd ei rieni i fyw i Corris pan oedd ef yn faban. Yr oedd ei dad yn ddiacon ffyddlon gyda'r Annibynwyr yn Esgergeiliog. Symudodd Mr. R. i Tredegar yn 1859, i ddilyn ei alwedigaeth fel *Joiner*, ac ymaelododd yn eglwys y diweddar Barch. D. Hughes, B.A. Dechreuodd bregethu yn 1862, a chyn diwedd y flwyddyn aeth i ysgol y Parch. O. Evans. Yn Hydref

golwg ar fyned ato i'r ysgol i barotoi ar gyfer cael derbyniad i un o Golegau yr Enwad Annibynol. Cefais fod Mr. Evans yn y tŷ, a gwahoddwyd fi i mewn. Nid anghofiaf byth yr olwg foneddigaidd

Parch. Owen Evans.

oedd arno, a'r modd caredig y derbyniodd fi. Wedi i mi ddweyd fy neges wrtho, eglurodd beth oedd telerau ei ysgol, ac yn neillduol gyda golwg ar fechgyn ieuainc oedd a'u bryd ar fyned i'r weinidogaeth.

1864, aeth i Goleg Caerfyrddin, ac ar ol aros tair blynedd yno, ordeiniwyd ef yn Bethel, Llansamlet, lle bu yn ddedwydd a llwyddianus am naw mlynedd. Symudodd yn 1876 i gymeryd gofal eglwysi Treflys a Salem, yn Bethesda, Arfon. Yn Ionawr, 1901, dechreuodd ei weinidogaeth fel gweinidog yr Eglwys Gymreig yn Barrett's Grove, Llundain. Mae Mr. Rowlands yn un o brif weinidogion yr Annibynwyr Cymreig. Dymunwn iddo barhad o'r llwyddiant mawr sydd wedi dilyn ei ymdrechion fel y cyfryw, a diolchwn iddo yn neillduol am ei deyrnged galonog o barch a chydnabyddiaeth i'w hen athraw.—GOL.

Aeth gyda mi i sicrhau llety gyda hen wreigan o'r enw "Nansi," yr hon oedd yn byw mewn tŷ perthynol iddo ef, a lle y bu amryw o ysgolheigion Mr. Evans yn aros o dro i dro er gwaethaf y swm o *snuff* a ddefnyddiai Nansi.

Dychwelais yn ol i Tredegar yn gynar y prydnawn Sadwrn hwnw wedi taith o ryw un-filldir-ar-bymtheg, yn ol a blaen, ac aethum at Mr. Hughes i adrodd fy hynt lwyddianus Cydlawenhaodd Mr. Hughes a mi, a rhoddodd i mi lawer o gynghorion da a chyfarwyddiadau buddiol gyda golwg ar ddyfodol fy mywyd. Yr wythnos ddilynol yr oeddwn yn dechreu ar fy ngwaith yn yr ysgol, yr hon oedd, y pryd hyny, mewn sefyllfa dra llewyrchus. Yr oedd yr ysgoldy yn



Hen Ysgoldy y Cefn.

llawn, fel yr oedd yn anhawdd cael lle wrth y *desk*. Nid rhyfedd hyny, canys yr oedd clod yr athraw parchus yn hyspys drwy yr holl wlad er ys blynyddau. Erbyn hyn yr oedd llawer o weinidogion oeddynt wedi bod yn "Ysgol y Cefn" yn derbyn eu haddysg ragbarotoawl i'r gwahanol Golegau wedi troi allan; a syniad pawb oedd nad oedd yr ysgol hon yn ail i unrhyw un yn y wlad.

Meddai Mr. Evans ar holl anhebgorion athraw llwyddianus. Yr oedd awdurdod a boneddigeiddrwydd yn cydgyfarfod yn ei ymddangosiad. Medrai fod yn *stern* ar adegau, a cheryddai, os byddai raid, ond anaml y defnyddiai y wialen. Ei hyfrydwch oedd gweled

ei ddysgyblion yn hapus, llawen a siriol, ac yn dwyn arwyddion fod eu gwaith yn bleser iddynt. Y ffordd oedd ganddo i sicrhau hyny oedd—gwersi byrion, a'r rhai hyny wedi eu dysgu a'u meistroli yn drwyadl. Byddai wrth ei fodd os byddai y wers wedi ei dysgu yn dda. Hynyma oedd un rheswm am lwyddiant digyffelyb ei ysgol, a hyn a roddodd arbenigrwydd ar ei ddull o gyfranu addysg a chario y gwaith yn mlaen. Byddai y pedwar diwrnod cyntaf o'r wythnos yn cael eu cymeryd i fyny mewn tori tir newydd—dysgu gwersi newyddion bob dydd, a hyny mor drwyadl ag y byddai yn bosibl, o foreu Llun hyd brydnawn Iau; ac yna byddem oll yn myned adref—nid i chwareu na segura ond i adolygu holl waith y pedwar diwrnod, canys yr oedd dydd Gwener yn ddydd prawf—yn *Examination day* ar yr holl ysgol. Yr oedd y gwaith hwn yn cael ei gario yn mlaen o wythnos i wythnos, ac o fis i fis, hyd nes y byddai y maes o ddechreu y llyfr wedi myned yn ormod i'w adolygu. Yna cymerai ran o hono, a gofynai ofyniadau ar hyd a lled y llyfr fel y byddai yn hawdd canfod pwy oedd wedi gweithio.

Nid oedd *Key* yn cael ei ganiatau yn ei ysgol o gwbl; ac am a wn i, nid oedd yno neb yn gwybod dim am y fath beth a *Key*, a phe yn gwybod, nid wyf yn tybied y buasai neb yn meddwl am ei ddefnyddio, am y buasai trwy hyny, yn tori un o reolau yr ysgol. Y *Lexicon* a'r Gramadeg oedd yr unig allweddau a ganiateid. Byddai raid cyfrif am bob gair—wreiddyn a changen, a chyfrif am dano yn ol manylaf reolau Gramadeg—chwilio am danynt fel am drysorau cuddiedig nes dod o hyd iddynt, a'u ceisio fel ceisio arian. Teimlem fod enill boddlonrwydd yr athraw bron cystal ag enill cadair Eisteddfod. Byddai bechgyn o Merthyr, Dowlais a'r cylchoedd yn perthyn i'r ysgol hon, a rhai o honynt yn ddysgwyr rhagorol, er yn llawn castiau a direidi.

Rhyw dro, yr oedd yno ddau neu dri o'r cyfryw yn dod i fyny o Ferthyr, ar foreu oer, pan oedd rhew ac eira yn gorchuddio y wlad. Ar adegau felly byddai y defaid mân yn dod i lawr o'r bryniau, ac yn tori tros y cloddiau i'r gerddi ar yr ochr dde i'r ffordd, gan ddifa defnyddiau "cawl" y gweithwyr oedd yn byw yn y cyffiniau hyny, a mawr yr helynt a wnai y menywod o'r herwydd. Rhyw dro, yr oedd tri neu bedwar o'r *boys* hyn yn dod i fyny, un bore, o Ferthyr i'r ysgol *in high glee*. Daliasant un o'r llydnod lladronig hyn, ac aethant ag ef i fyny bob cam trwy lawer o drafferth a lludded, llafur a chwys. Erbyn cyrhaedd yr ysgol yr oedd yn bur ddiweddar, a phawb wrth ei waith fel pe am ei fywyd. Curwyd wrth y drws, agorwyd ef ac aethpwyd a'r *culprit* i mewn, gan gyfarch yr athraw yn foesgar, a dweyd wrtho eu bod wedi dod a *pupil* newydd iddo. Hawddach dychmygu na desgrifio y mwynhad a gafodd yr holl ysgol, ac nid oedd yno neb yn mwynhau y *joke* yn well na'r athraw medrus a llwyddianus.

Undodwr selog o ran ei farn oedd Mr. Evans. Dyn da, rhyddfrydig, parod i wneud daioni, i bawb hyd y gallai. Ni welais yr arwydd lleiaf ynddo i broselytio neb erioed. Cefais lawer o'i gym-

deithas yn ystod y ddwy flynedd a haner y bum gydag ef, ac y mae'n dda genyf gael y cyfle hwn—wedi llawer o flynyddau—i ddwyn tystiolaeth uchel o'm syniad uchel am dano fel dyn o bersonoliaeth gref—boneddwr trwyadl mewn ymddangosiad ac ymddygiad; fel athraw diail, ac fel y cymwynaswr mwyaf caredig a gyfarfyddais yn fy mywyd. Caniattaer i mi hefyd ddwyn tystiolaeth o'm parch i goffadwriaeth ei anwyl briod—Mrs. Evans. Yn ystod y tymor cymharol fyr y bum yn y Cefn, cefais lawer o gyfleusderau i'w hadnabod hithau. Bum am y misoedd diweddaf o'm harosiad yno yn *daily boarder* yn ei thŷ, ac wrth ei bwrdd llawn, yn rhad ac am ddim, a chefais hi, bob amser, yn deilwng o'r cylch pwysig yr oedd yn troi ynddo.

Gadawsant dri o blant i alaru eu colled, sef dwy ferch ac un mab. Cymerwyd y tad ymaith cyn gorphen eu magu, ond cawsant gadw eu mam am flynyddoedd wedi hyny, a chawsant oll gysgod ac arweiniad Tad yr amddifaid a Barnwr y weddw. Y mae y tri* bellach wedi ymsefydlu yn y byd mewn amgylchiadau cysurus, ac yn cael mwynhau, mewn modd helaeth, gyflawniad o'r addewid Ddwyfol, "Tywalltaf fy ysbryd ar dy had, a'm bendith ar dy hiliogaeth."

Y BEIBL: YR HEN A'R NEWYDD.

IV.—Y Llyfrau Hanesyddol (ail ran).

Mae chwech o lyfrau y rhan gyntaf o'r Hen Destament heb gael sylw genym eto, sef, y pedwar hanesyddol, Cronicl, Ezra, a Nehemiah; a dau o natur wahanol, Ruth ac Esther. Wrth ddarllen y llyfrau hyn, gwneir argraff arnom eu bod wedi eu hysgrifenu gydag amcan (os nad gydag amcanion) neillduol. Nid yw'n hollol amlwg beth yw'r amcan yn Ruth ac Esther; ond nid oes llawer o le i anmheuaeth parthed amcan cyfansoddiad llyfrau y Cronicl, Ezra, a Nehemiah. Mae'r ddau olaf yn werthfawr hefyd am eu bod yn dwyn hanes y genedl yn nes atom nag a wneir gan y llyfrau ereill.

Cronicl.

Yr un yw cynwys llyfrau y Cronicl a llyfrau y Brenhinoedd, sef, hanes y genedl. Yn y naw penod gyntaf olrheinia'r awdwr achyddiaeth y genedl, gan ddechreu gydag Adda. Cymerir y gweddill o'r llyfr cyntaf i fyny gan hanes Dafydd, a'r rhan gyntaf o'r ail lyfr gan hanes Solomon. Yna, yn wahanol i lyfrau y Brenhinoedd, ni cheir yn y gweddill ond hanes brenhinoedd Judah yn unig, ac ni wneir ond cyfeiriadau yn awr ac eilwaith at frenhinoedd Israel. Wrth gymharu'r hanes yn y Cronicl a'r hanes yn y Brenhinoedd, gwelir y sonir am

* Cofnodwyd marwolaeth yr ail ferch yn y rhifyn diweddaf.—Gol.

lawer o ddigwyddiadau yn y cyntaf nad oes un cyfeiriad atynt yn yr olaf, ac y gadewir allan lawer hefyd ; a gwneir sylw helaethach o lawer o rai digwyddiadau nag a wneir o honynt yn y Brenhinoedd. Mae y rheswm am hyn yn hollol amlwg, os iawn yw'r dyb y cyfeiriwyd ati uchod fod llyfrau y Cronicl wedi eu hysgrifenu gydag (o leiaf) un amcan neillduol. Beth oedd yr amcan hwn? Er ateb y gofyniad hwn rhaid myned yn ol i gyfnod cymharol gynar yn hanes y genedl, pan oedd y prophwyd yn bob peth, a'r offeiriadaeth heb ddod i fodolaeth ; neu o leiaf, heb enill y safle o bwysigrwydd yn mywyd y bobl a berthynai iddi mewn amserau diweddarach. Mae'r yspryd prophwydoliaethol yn amlwg yn y llyfrau (neu'r ysgrifau henaf), fel y sylwyd eisioes. Ond yn raddol daeth yr yspryd offeiriadol a'r offeiriadaeth i fodolaeth, a bu'r ddau—y prophwyd a'r offeiriad—am dymor yn cydfodoli. Dyma beth olygir wrth ddweyd fod Deuteronomium wedi ei ysgrifenu gan brophwyd oedd yn meddu cydymdeimlad a'r yspryd offeiriadol. Ond o'r adeg hono (621) allan, diflanodd yr yspryd prophwydoliaethol yn raddol ; ac yn raddol hefyd daeth yr offeiriadaeth i'r orsedd yn ei le. Pan oedd yr oruwchafiaeth wedi ei llwyr enill gan yr olaf (yn amser Ezra a Nehemiah yn y 5ed ganrif), fel y gellid disgwyl, yr oedd y llenyddiaeth a ddaeth i fodolaeth ar ol hyn wedi ei hysgrifenu oddiar y safbwynt offeiriadol. Fel y sylwyd, oddiar y safbwynt hwn yr ysgrifenwyd y rhan helaethaf o'r Pum' (neu'r Chwe') Llyfr cyntaf o'r Beibl. Ond hyd hyn nid oedd un hanes cyflawn o'r genedl wedi ei ysgrifenu oddiar ar yr un safbwynt. Yn llyfrau Josua, Samuel a Brenhinoedd, mae yspryd y prophwyd yn amlwg; yn wir, gelwid hwy gan yr Iuddewon yn lyfrau prophwydoliaethol. Ymgais i gyflenwi'r diffyg yw'r llyfrau hyn. Ceidw'r awdwr un amcan yn amlwg o'i flaen trwy'r oll, sef ysgrifenu hanes y genedl fel ag i'w wneud yn ffafriol i'r offeiriadaeth. Mae pob peth sydd a thuedd i'w sicrhau yn serch y bobl, ac yn ei hawdurdod arnynt, yn cael sylw arbenig ganddo ; a phob peth anffafriol yn cael ei anwybyddu yn llwyr, neu, yn cael ei droi o'r neilldu gydag ychydig iawn o sylw. Ysgrifenwyd y ddau lyfr (fel y bernir) oddeutu, neu yn fuan ar ol 330 C.C. ; gan bwy, ni wyddir. Ni chela'r awdwr y ffaith ei fod yn ddyledus i ysgrifau eraill am ddefnyddiau ei hanes. Enwir oddeutu dwsin o honynt yn nghwrs y ddau lyfr ; ond nid oes un cyfeiriad at un o lyfrau y Brenhinoedd, a'r rhai nis gallai lai (allem dybied) na bod yn gydnabyddus.

Ezra a Nehemiah.

Cymerir hanes y genedl i fyny yn Ezra lle y gadewir ef yn Cronicl. Yn 538 C.C., caniatawyd i'r Iuddewon i ddychwelyd o Babilon i'w gwlad eu hunain. Ond dywedir mai dim ond haner can mil a fanteisiodd ar hyn. Ar ol cyrhaedd pen y daith, o dan arweiniad Zorobabel, dechreuasant yn ddioedi ail-adeiladu y deml. Llwyddodd eu gelynion, fodd bynag, i'w rhwystro i fyned yn mlaen a'r gwaith hyd deyrnasiad Darius, brenin Persia, pryd y gorphenwyd y deml. Yn mhen amser ar ol hyn (yn 458 C.C.) dychwelodd nifer ychwanegol, o dan arweiniad Ezra. Pan gyrhaeddasant Jerusalem, cafodd Ezra fod y bobl oedd yno o'i flaen wedi ymbriodi a dieithriaid ; ac ar ol galw o'r bobl yn nghyd gan Ezra, maent yn edifarhau ac yn addaw gwellhau. Yn 445 C.C., daw Nehemiah i Jerusalem, ac anoga'r Iuddewon i adeiladu mur y ddinas, yr hyn a wnaethant, er gwaethaf ymosodiadau gelynion o'r tu allan, yn benaf y Samariaid, a chyflwr anfoddog rhai o'r trigolion yn y ddinas, yr hyn a achosid yn benaf gan ymddygiadau celyd eu brodyr cyfoethog tuag atynt. Yn ychwanegol at adeiladu y caerau o gylch y ddinas gwnaeth Nehemiah lawer hefyd tuag at symud rhai o achosion y caledi a fodolai yn mhlith y bobl. O'r VIII hyd y X,

rhoddir hanes darlleniad y gyfraith yn gyhoeddus, cadw gwyl y Pebyll, ympryd ac edifeirwch y bobl, a seiliad y cyfamod i gadw'r gyfraith. Gwneir y gweddill i fyny, yn mhlith pethau eraill llai eu pwys, o hanes cysegriad muriau Jerusalem, ail ymweliad Nehemiah a'r lle, a'r diwygiadau gariwyd allan ganddo yn ystod ei arosiad. Bu'r ddau lyfr hyn unwaith yn rhan o'r Cronicl, a chan yr un awdwr yr ysgrifenwyd hwynt. Cadarnheir y dyb mai'r un yw eu hawdwr gan y ffaith y defnyddir yr un ymadroddion (neu ymadroddion cyffelyb i'w gilydd) yn y tri yn barhaus pan yn cyfeirio at y gyfraith, y bodola tebygolrwydd mawr yn eu dullwedd ieithyddol, ac y rhoddir desgrifiadau manwl a helaeth o bob peth cysylltiedig a'r addoliad yn y deml. Mae'n anmhosibl mai Ezra a'u hysgrifenodd, fel y credir gan rai, oherwydd cyfeirir at Ezra mewn amryw fanau fel yn perthyn i oes flaenorol; a chyrhaedda'r ach-restrau yn y Cronicl a Nehemiah hyd adeg yn mhell ar ol Ezra. Y farn gyffredin yw eu bod wedi eu hysgrifenu oddeutu'r un amser a'r Cronicl, sef, oddeutu 330 C.C., neu ychydig ar ol hyny. Ond, er hyn, mae'n bosibl fod gan yr awdwr o'i flaen rywfath o hanes bywyd y ddau, Ezra a Nehemiah, wedi eu hysgrifenu ganddynt hwy eu hunain.

Ruth.

Nid hanes, yn ystyr arferedig y gair, yw llyfr Ruth, ond math o chwedl, wedi ei seilio efallai ar draddodiad. Geilw un awdwr ei gynwys yn fugeilgerdd, yr hyn sydd ddesgrifiad tarawiadol iawn o hono. Gosodir ef yn nesaf at y Barnwyr, efallai, am y rheswm y dywedir (adn. 1) fod y digwyddiad a gofnodir ynddo wedi cymeryd lle yn amser y Barnwyr. Ond mae'n amlwg na ysgrifenwyd y llyfr hyd yn mhell ar ol hyn (gweler iv: 7). Pa bryd yr ysgrifenwyd ef nid yw'r beirniaid yn cyduno. Gesyd un beirniad ef cyn y Caethiwed, un arall yn amser y caethiwed, tra y mae amryw (Kuenen a Wellhausen yn eu plith) yn ei osod ar ol y caethiwed—rywbryd cyn diwedd y chweched ganrif. Gan nad pa un o'r tri sydd iawn, mae pob un o honynt yn gosod adeg ei gyfansoddiad ganrifoedd lawer ar ol y digwyddiad broffesir gofnodi ynddo. Mae'n un o'r rhai mwyaf swynol a dymunol o ran ei gynwys o'r oll o lyfrau'r Hen Destament. Yn amser y Barnwyr dywedir fod teulu—gwr a gwraig a dau fab—wedi mudo o Bethlehem i Moab. Ar ol cyrhaedd Moab mae'r gwr yn marw; ac ar ol iddynt briodi gwragedd o ferched Moab, mae'r ddau fab yn marw hefyd, gan adael eu mam, Naomi, a'u gwragedd ar ol. Yna dychwel Naomi i'w gwlad ei hun, a chais gan ei dwy waudd i aros gyda'u cyfeillion yn Moab yn hytrach na myned gyda hi. Mae un yn aros; ond y llall—Ruth—a wrthododd aros, a dilynodd Naomi i Bethlehem, lle y creodd hanes eu hadfyd gydymdeimlad cyffredinol a hwynt. Yna aeth Ruth i faes Boaz, câr i wr Naomi, i loffa tywysenau, a dangosodd Boaz iddi garedigrwydd mawr, a'r diwedd fu i Boaz gymeryd Ruth yn wraig iddo. Mae'n anhawdd gwybod yn gywir beth oedd amcan yr awdwr wrth ysgrifenu'r hanesyn prydferth hwn. Dywed un mai math o wrthdystiad ydyw yn erbyn y culni a ddangosid gan un blaid Iuddewig, dan arweiniad Ezra a Nehemiah, yn eu gwrthwynebiad i Iuddewon i ymbriodi a dieithriaid. Os yw'r dybiaeth hon yn gywir, rhaid fod y llyfr wedi ei ysgrifenu ar ol amser y ddau hyn (oddeutu 400 C.C. efallai). Ond nid oes un sail i'r dyb hon mwy nag i'r aml dybiau a ffyna yn mhlith beirniaid am dano. Yn

Esther

cawn lyfr hollol wahanol i Ruth. Un o'r Iuddewon mewn caethiwed yn Babilon oedd Esther, a merch-faeth i un o'r enw Mordecai. Oherwydd ei glendid, dewisir hi yn wraig i'r brenhin Ahasferus. Mae Haman, prif swyddog y brenin, yn cael ei fawrhau

goruwch yr holl dywysogion ; ac yn unol a gorchymyn y brenin ymgryma ac ymostynga holl weision y brenin iddo ; ond am i Mordecai wrthod gwneud hyn, llanwyd Haman o ddigofaint, a llwyddodd i gael gan y brenin i wneud cyfraith i ladd yr holl Iuddewon trwy'r ymherodraeth. Ond trwy ddylanwad Esther, mae'r fradwriaeth yn cael ei rhwystro, a Haman yn cael ei ddienyddio ar y grogbren oedd efe wedi barotoi ar gyfer Mordecai. Ar ol hyn, dyrchefir Mordecai i swydd Haman, a thrwy i Esther eiriol dros ei chenedl achubir hwynt rhag y dinystr fwriedid ar eu cyfer ; ac yn mhellach, caniateir i'r Iuddewon "i sefyll am eu heinioes, i ddinystrio, i ladd, ac i ddifetha holl allu y bobl a'r dalaeth a osodai arnynt." Ar y 13eg o fis Adar (y mis olaf o'u blwyddyn hwy) dinystriwyd miloedd o'u gelynion gan yr Iuddewon. Er cof am y lladdfa hon, cedwir gwyl y Purim yn flynyddol. Gwyl a fenthycwyd gan yr Iuddewon oddiwrth y Persiaid yw hon yn ddiamheu, a thebyg mai amcan y llyfr oedd dwyn yr wyl i sylw'r Iuddewon yn Palestina a'u darbwyllo i'w mabwysiadu. Ysgrifenwyd ef oddeutu diwedd y drydedd ganrif cyn Crist ; ond ni ellir dyweyd gan bwy, ac ni ellir dyweyd ychwaith pa un ai hanes ynte chwedl yw ei gynwys. Ni cheir cyfeiriad at unrhyw ddigwyddiad o'r fath mewn unrhyw lenyddiaeth gydoesol. I'r Iuddewon mae'n llyfr gwerthfawr ; ond i Gristionogion efe yw y lleiaf gwerthfawr o holl lyfrau yr Hen Destament.

DISGYBL.

DYSGU'R BOBL.

GAN DEWI HIRADDUG, LLUNDAIN.

"A thorfeydd lawer a'i canlynasant ef ; ac efe a'u hiachaodd hwynt." Dyna dystiolaeth yr Efengylwr Matthew am y Pregethwr Mawr o Nazareth. A gellir yn eithaf priodol gymhwyso'r adran gyntaf o'r adnod at lawer o bregethwyr poblogaidd Cymru o ddechreu'r diwygiad Protestanaidd i lawr hyd wawriad yr ugeinfed ganrif. Ond beth am y rhan olaf? A fedrwn ni ddyweyd gyda gwirionedd am bob un a fu'n tyny torfeydd Cymru ar ei ol, "Ac efe a'u hiachaodd hwynt"? Y mae lle i ofni am fwyafrif pregethwyr atdyniadol y Dywysogaeth, yn arbenig yn yr oes uchelgeisiol hon, mai eu hawydd penaf yw denu'r torfeydd ar eu hôl, fel ag i'w trwytho âg athrawiaethau a syniadau sectyddol, yn hytrach na'u hiachau yn feddyliol ac ysprydol—eu goleuo, a'u tyneru, a'u dysgu i feddwl ac ymresymu drostynt eu hunain. Diamheu fod yna sail ddiysgog i'r ymffrost a wneir mor fynych gan rai o'n siaradwyr cyhoeddus fod gwerin neu ddosbarthiadau gweithiol Cymru yn llawer mwy hyddysg yn athrawiaethau, haerdybiau, a daliadau duwinyddol yr enwadau uniawngred, na dosbarthiadau cyfatebol unrhyw wlad neu genedl arall. I'r iawngredwr yn Nghymru y mae ymhyddysgu yn "athrawiaethau crêd" yr un peth ag yw "myn'd i'r eglwys" i'r defodwr yn Lloegr neu'r Pabydd, dyweder, yn yr Yspaen. Athrawiaeth yw crefydd y naill mor wired ag mai defodaeth yw eiddo'r llall. Ond pa fodd y

dysgodd y Cymro ei athrawiaethau? Pa fodd y daeth efe o hyd i'w gasgliadau duwinyddol, ac i goleddu ei syniadau haerdybiol? Ai trwy chwilio a myfyrio, ac ymresymu, tybed? Na, choelia i fawr! Oddiar wefusau y pregethwyr y cafodd efe hwynt; a dysgodd hwynt yn yr un modd yn hollol ag y dysgodd y Pabydd neu'r defodwr ei weddiau oddiar wefusau'r offeiriad, neu fel y mae'r aderyn *parrot* yn dysgu siarad ambell air a glywodd ganoedd o weithiau drosodd ar wefusau meistr a meistres a morwyn y tŷ!

Yn nghwrs ei anerchiad i fyfyrwyr

Coleg Caerfyrddin

dri mis yn ol, gwnaeth un o'n gweinidogion rhyddfrydig yn Llundain (y Parch. R. H. U. Bloor) sylwadau pwrpasol iawn ar y pwysigrwydd o ddyfalwch wrth ddysgu'r torfeydd. A gresyn na fuasai pob pregethwr trwy Gymru benbaladr—a Lloegr hefyd, o ran hyny—yn ystyried y mater o'r un cyfeiriad! Swm a sylwedd anerchiad Mr. Bloor ydoedd gair o rybudd yn erbyn y syniad cyffredin nad oes cymaint o angen gofal a pharotoad wrth bregethu i'r torfeydd neu i gynulleidfaoedd o bobl gyffredin ac anwybodus, ag sydd i gynulleidfaoedd diwylliedig. Y mae yn llawer hawddach pregethu i bobl ddeallgar nag i rai dwl; y mae yn llawer hawddach pregethu i rai mewn oed nag i blant. Nid yw pregethwyr anfedrus, meddai, yn debyg o arwain cynulliad o gewri meddyliol ar gyfeiliorn; ond gorphwys cyfrifoldeb ofnadwy ar y sawl sy'n pregethu i rai nas gallant fforddio cael llyfrau ac nad yw moddion astudiaeth o fewn eu cyrhaedd. Nid oes gan unrhyw bregethwr hawl i gyhoeddi yr hyn nad yw efe ei hunan yn ei ddeall. A *business* y pregethwr ydyw, nid cyhoeddi athrawiaethau yn unig, ond hefyd eu cymhwyso at gyflyrau a bywydau y rhai y llefara wrthynt.

Sut y saif pwlpudau uniawngred Cymru yn ngoleuni'r egwyddorion hyn? Pa sawl un o'r pregethwyr poblogaidd sydd yn deall yr athrawiaethau dyrys am y Cwymp, yr Ymwacâd, yr Ymgnawdoliad, yr Iawn, yr Adgyfodiad, y Drindod, a phethau cyffelyb ag y maent mor hoff o draethu arnynt i gynulleidfaoedd o bobl gyffredin? "Ond," ebe'r pregethwr iawnffyddol mewn ffordd o hunan-gyfiawnhad, "nid pethau i'w *deall* ond i'w *credu* ydyw y rhai hyn." Hen ddull o ymresymu yn Nghymru ydyw hynyna. Clywais ef ugeiniau o weithiau drosodd pan yn blentyn—anelwyd yr ymadrodd ataf fi fwy nag unwaith pan y dechreuais i feddwl drosof fy hunan, a phan y medrais i gasglu digon o wroldeb i roddi datganiad, gan nad pa mor egwan, i fy amheuon. Ond nid fel yna yr ymresymai Iesu o Nazareth, ac nid dyna'r *tactics* a ddefnyddiai efe wrth ymwneud â'r amheuwyr y deuai i wrthdarawiad â hwynt pan yn dysgu'r torfeydd. Dull yr Athraw Mawr hwn ydoedd yn gyntaf oll chwilio allan a deall afiechyd meddyliol ac yspryd-ol y bobl, ac yna rhagnodi meddyginiaeth gyfatebol; cyn rhoi bwyd iddynt, yr oedd yn rhaid creu archwaeth ynddynt at fwyta; a chyn rhoi o'u blaen bethau celyd ac anhawdd eu treulio yr oedd yn rhaid yn gyntaf eu dysgu i gnoi pethau meddal a syml. Yr oedd y bwyd a ddodai Efe o'u blaen bob amser yn berffaith gymhwys i'w peirianau treuliol. Y mae

Diffyg Treuliad

mewn ystyr feddyliol yn blino arddelwyr crefydd yn llawn cymaint ag y mae'n blino'r "byd" di-grefydd mewn ystyr naturiol—neu annaturiol. A'r rheswm yw fod pobl yn llyncu gormod o dduwinyddiaeth heb ei gnoi. Gŵyr y *caste* pregethwrol yn eithaf pa mor wancus y llynca'r werindorf grefyddol yr ymborth a gynygir iddynt *ar awdurdod* yn unig, fel nad ydynt yn pryderu o gwbl yn nghylch ei faeth a'i goginiaeth. Yn Nghymru o leiaf, y mae'r bobl wedi eu magu mor gyfangwbl ar y dam-

caniaethol fel nad oes ganddynt flas at yr ymarferol, ac y maent wedi arfer cael pob dysglaid o athrawiaeth yn *ready-made* fel ag i'w gwneud yn hollol analluog i barotoi dim byd ar eu rhan eu hunain. Dyna yn ddiau y rheswm pa'm y rhêd y *mòb* crefyddol mor wancus at y

Crochanau Cig Duwinyddol

a gynygir yn barod o Sul i Sul yn mhwlpudau uniawngred Cymru. O mor anhebyg i'r Pregethwr yr ânt allan yn ei enw! Pryd bynag y deuai efe o flaen cynulleidfa o bobl gyffredin, onid ei ddull arferol Ef ydoedd yn gyntaf oll eu deffro o'u cwsg meddyliol trwy gynhyrfu eu dyddordeb yn mhethau beunyddiol bywyd—trwy gyffelybu sylweddolion hanfodol y bywyd uwch i wrthddrychau adnabyddus eu gorchwylion dyddiol? Gydag ef yr oedd deall arwyddocâd y bywyd presenol yn anhebgorol i amgyffrediad o'r bywyd dyfodol; elai at yr ysprydol trwy gyfrwng y materol; a dangosai yn ddios fod yn rhaid, gyda chrefydd fel gyda phobpeth arall, i'r ymarferol a'r damcaniaethol fyned yn nwylaw eu gilydd. Ymddengys i mi nad anwybyddir dim yn fwy llwyr gan bregethwyr iawnffyddol Cymru heddyw na'r cysondeb anwadadwy hwn yn nysgeidiaeth yr Athraw. Ac ychydig obaith fydd byth am y torfeydd tra y coleddir y damcaniaethol ar draul anwybyddu'r ymarferol; tra y perchir coeledd ac y diystyrir rheswm; tra y dyrchefir duwinyddiaeth uwchlaw moeseg; tra y rhoddir athrawiaeth o flaen argyhoeddiad, ffydd o flaen gwyddor, awdurdod o flaen barn, a chred o flaen ymddygiad.

O FYNYDD I FOR.

Wele, unwaith yn rhagor fis Medi, a'i wenith aur, ei afalau bochgoch, a'i ffurfafenau nyddenog tawel. Y mae gwyrdd y gwanwyn yn fradwrus, ac nid yw gwenau llygaid y dydd yn Ebrill ond cymhorth i felusu'r pruddglwyf. Y mae afiechyd yn mynwes daear Mai, y mae ei gwyneb yn chwerthin, ond oer yw ei chalon. Ond am ddaear Medi, y mae ei gwefus yn sobr ac addfed, y mae'n wisgedig gan gyfoeth, ac y mae ei chalon yn iach a chynes. Du yw'r gauaf, gwyrdd yw'r gwanwyn, gwyn yw'r haf, ond lliw'r aur yw'r

Hydref Ieuanc;

aur wedi ei ymylu a phorphor pêr y grug.

Hoffais yn fawr ddesgrifiad cyfaill o awelon Medi. Mae'r awyr fel *champagne* meddai, fel gwin gwlad tragwyddol haul. Ddarllenasoch chwi ddesgrifiad Keats o hono? Os naddo, darllenwch ei *Ode to the Nightingale*. Erbyn Hydref yr ydym oll wedi yfed yn helaeth o belydrau heulwen haf, a'r corff yn loew dan ei dylanwad, a'r enaid yn wresog ac yn ieuanc. Nid oes arnom ofn gwynebu'r gauaf, er hylled a gerwined fo. Yr ydym wedi casglu nerth i'n hysgubor iau corfforol; ac wedi casglu digon o fwyniant i adfyfyrio arno drwy y gauaf, fel y casgl y gwenyn fêl.

Unwaith yn rhagor aeth

Gwyliau'r Haf Drosodd.

Y mae pob un eto wedi ymgymeryd at ei waith priodol ei hun. Cofion dedwydd yw cofion gwyliau'r haf ar lan y môr. 'Does yno na gwahaniaeth swydd na

gwahaniaeth sect—er y ceir 'adar o'r unlliw yn hedeg i'r unlle' yno. Ond yn nŵr y mor y mae pawb yn diosg oddi-amdano arferion a defodau ei swydd a'i sect, ac yn nofio mewn—bum bron a dweyd 'cariad a hedd'—beth bynag, yn nofio mewn iechyd a mwyniant. Yn nŵr y mor ceir gweled hen wynebau nas gwelwn hwynt ond unwaith mewn blwyddyn, a llawer nas gwelsom er's blynyddau. Rhyfedd y golygfeydd a welwn. Dyna fachgen nas gwelais er's chwe' mlynedd: nid oedd ond deuddeg oed y pryd hwnw, y mae yn awr yn ddeunaw. Mor anhawdd yw ei anerch fel bachgen deunaw; imi gorchwyl caled yw sylweddoli ei fod yn awr bron mewn synwyr gwr, a holl obeithion a dyheadau gwr ieuanc yn ei fynwes. Gymaint o bethau sydd wedi myned tros fy mhen i yn ystod y chwe' mlynedd diweddaf, gymaint wyf wedi weled, gymaint o brofiad, gymaint o ddoethineb wyf wedi gasglu, gymaint o lyfrau wyf wedi ddarllen! Nid wyf wedi gweled y cyfaill hwn er's blynyddau, er pan oeddem yn yr ysgol gyda'n gilydd. Yr oedd ei gwmni yn ddyddorol y pryd hwnw, nis gall ei fod yn ddigon gwybodus a chall i siarad a mi 'nawr! Yn araf, dichon ei fod ef yn gryn gallach na mi erbyn heddyw. Y mae deng mlynedd o brofiad yn gymaint i'r naill a'r llall o honon. Camgymeriad mawr yw

Gwneud Ceryg Milldir o hen Gyfeillion

i fesur ein mynediad yn mlaen yn y byd. Dylid bod yn dra gofalus sut i drin hen ffrynd nas gwelsom er's blynyddau. Y mae yn hanfodol yr un, ond y mae wedi gwisgo amryw arferion newydd; y mae'r byd wedi bod wrthi yn trin a throi ei gymeriad; y mae nodweddion newydd wedi tyfu fan yma, a hen rai wedi diflanu fan acw. Efallai ei fod yn llac yn mater ei grefydd pan y gwelsom ef ddeng mlynedd yn ol; na chymerer yn ganiataol ei fod felly heddyw; gellwch frifo ei deimladau yn fawr wrth hyny. Efallai mai bratiog oedd ei Saesneg y pryd hwnw, ac efallai mai ychydig o ddiwylliant oedd ganddo; peidier siarad ag ef fel pe bai felly heddyw. Y mae pob dyn a dynes ieuanc yn cynyddu yn enwedig o'r deunaw i'r pump-ar-hugain; ac y mae mantais ac anfantais mewn cyffyrddiad dau gyfaill pump-ar-hugain oed wedi blynyddau o wahaniad. Y duedd yw cwrdd ar yr hen delerau; y naill yn trin y llall fel yr oeddent "er's llawer dy'." Y mae hyn yn dwyn yn ol yr hen amser gynt a'i hen wynfydau, ond y mae hefyd yn dwyn yn ol yr hen wendidau gydag ef. Felly, gofaler sut i drin hen gyfeillion; os na wneir hyn hawdd troi hapusrwydd yn chwerwdod. Cofiwn ein bod i gyd yn yr un ysgol, sef ysgol profiad, ac er mewn ystafellodd gwahanol, gallwn fod yn yr un dosbarth eto yn mhen blynyddau.

Mor braf yw mynyddau a

Rhosydd Ceredigion.

yn yr haf a dechreu Hydref! Cymylau diog yn hofran dros ben o'r dwyrain nyddenog; adlewyrchiad y mor o orwelion y gorllewin; y grug yn fantell borffor dros y rhosydd a'r caeau llafur yn llawn o wenith a haidd yn ei sopynau! Ar y cloddiau mae clychau glâs yr *harebells* yn hongian ar bob llaw; blodau gwynion y mieri, a mwyar yn las, a choch, a du hyd y gwrychoedd; ac os nad yw plant y fro wedi bod oddiamgylch, y mae digon o lysiau duon bach a llysiau'r grugieir rhwng y grug a'r eithin ar y bryn. Yma a thraw cyfyd tŵr o betris neu ieir rhôs dan ein traed, gan wneud ein dychryn ni yn fwy na'r eiddynt hwy. Ie, amheuthyn yw rhodio'r rhosydd, yn enwedig i drigianwyr llwydion y dref. Yr ydych i gyd wedi darllen syniadau Mr. O. M. Edwards ar effaith y mynyddoedd ar gymeriad. Os nad ydych, darllenwch ei "Hanes Cymru: Rhan I." Nid wyf yn llwyr gytuno ag ef yn y cwbl ddywed.

Ond pa ddrwg bynag sydd mewn mynyddoedd, ceir eu trigolion bob amser yn garedig, yn gariadus at eu gilydd, ac yn onest. Y mae hyny yn wir o leiaf am

Drigolion Mynyddau Sir Aberteifi.

Y maent yn gorfod cynorthwyo 'u gilydd yn erbyn *forces* natur ; welsoch chwi hwy yn crynhoi at eu gilydd i gael y gwair i mewn pan fyddo'r tywydd yn anghyfartal yn yr haf! Dyna i chwi gydweithio a chydymdeimlo! Y mae pawb mor bryderus a phe bai'r gwair yn eiddo iddo ef ei hun. Os daw cwmwl dros yr haul y mae y fforch a'r rhaca yn "dyblu 'r ergydion" ; ac os del yr haul allan yn fwy gwresog nag arfer bydd pawb yn chwerthin a chwysu am y mwyaf. Fel hyn dysgir pawb i barchu eiddo ei gymydog, ac yn y dull hwn meddyliaf y

Meithrinir Gonestrwydd

yn mrodorion y mynyddoedd ; ac yn ol Pope—

"An honest man's the noblest
work of God."

Y mae'r mynyddau yn meithrin cariad at y teulu, ac at ei hen gysylltiadau. Y duedd felly y'w trysori'r hen bethau a hen arferion am eu bod yn hen. Anhawdd perswadio'r mynyddwr ei bod o unrhyw bwrpas i geisio byw yn well na bu ei dad a'i dadcu o'i flaen. Y mae'r mynyddwr ynte yn dueddol i fod yn geidwadol. Ai pobl geidwadol yw mynyddwyr Sir Aberteifi? Sut mae egluro Etholiad fawr 1868? Onid aelod rhyddfrydig sydd wedi bod yn cynrychioli Sir Aberteifi yn y Senedd er's blynyddau hirion bellach? Nid wyf yn credu mai yspryd rhyddfrydig pobl y wlad yn unig fu'n foddion i ddychwelyd Evan Matthew Richards i'r Senedd yn y flwyddyn fyth-gofiadwy hono. Na effaith ychydig *moving spirits* yn y Sir fu, i raddau helaeth, nid y lleiaf o'r rhai oedd

Yr Enwog Gwilym Marles.

Ydyw, mae Gymru'n geidwadol yn ngwir ystyr y gair. P'le bu Pabyddiaeth hiraf cyn trengu gwedi'r diwygiad Protestanaidd? P'le'r ymladdwyd y frwydr olaf dros y gormeswr Siarl yr Ail? Ai nid ar ddolydd Morganwg? P'le mae "stronghold" y Galfiniaeth gulaf heddyw? Beth yw'r hen iaith, hen, hen yma yr ydym yn siarad ac ysgrifenu ynddi, a bloesgni diwedd oes ar ei gwefus grynedig? Y mae wedi methu gwneud dim ond adrodd ystoriau a phenillion am yr amser fu; y mae wedi darfod a dysg, athroniaeth a masnach, y mae

Nwyf Ieuenctyd wedi ei Gadael ;

ac wele hi wedi hir oes yn glynu wrth yr aelwyd gartref ; iaith y cornel ydyw erbyn heddyw! Y mae wedi byw yn hir ; yn mha le ond yn Nghymru y gallsai fyw cyhyd? Dyna i chwi esiampl o geidwadaeth ; ond ei bod yn esiampl o ochr orau'r egwyddor hono.

Diamheu eich bod lawer gwaith wedi gwel'd

Yr Haul yn Machlud

tu ol i fryniau Ceinewydd. Bum yn ceisio gwneuthur Englyn i ddesgrifio'r olygfa, ond yr oedd yn debyg i waith y dyn hwnw yn darlunio *landscape* gyfan ar ochr gwenithyn. Pe buasech yn gwybod y ffwdan gefais i'w wneud, byddech yn siwr o'i werthfawrogi. Dywedai Proffesswr Rhifyddiaeth yn un o Golegau Prifysgol Cymru fod yna gymaint o ymarferiad meddyliol mewn gwneud englyn ac sydd mewn *solvo problem* mewn *Integral Calculus!* Yr wyf yn llwyr gytuno ag ef. Heb son am englyn—

Pa le mae'r llaw
Eill dynu darlun o'r mynyddau draw?

Ac o'r môr, ac o'r dòn yn ewynu ar y traeth? Yn wir does gan iaith, ys dywed Islwyn, ond 'eistedd i addoli' mewn mudandod! A thyna wna'r beirdd Cymreig fel rheol. Mae arnynt ormod o ddiogi neu rywbeth i gymeryd cynfas eang a chymeryd amser i gymysgu'r lliwiau a rho'r *tone* a'r *touch* perffeithiaf i'w darluniau o wlad eu mebyd. Nid ydynt yn gwneud dim ond sefyll neu eistedd i lawr i fud addoli'r olygfa. Paham na chaem dipyn o amynedd y Sais, a dyfalbarhad yr Ellmynwr yn ein barddoniaeth a'n llenyddiaeth. Treuliodd Gray flynyddau lawer i berffeithio ei *Elegy* anfarwol; ac fel eithriad i'r rheol treuliodd

Yr Hen Ddafis, Castellhywel,

ragor i'w chyfieithu. Ac wele gyfieithiad Dafis mewn llawer ystyr yn well na'r gwreiddiol ei hun! Gymry, gadewch i ni roddi mwy o yni a gwaith a dyfalbarhad yn ein cyfansoddiadau llenyddol, a llenyddiaeth benigamp fydd eiddo "Cymru fydd." Waeth pa iaith yr ysgrifenir ynddi; 'dyw iaith ond gwisg allanol barddoniaeth, 'dyw'r meddyliau ond y cnawd: eisieu delw

Yspryd y Celt

sydd arnom mewn barddoniaeth fydeang ddi-ddarfod. Nid nodyn yma a thraw, na chanig 'nawr ac yn y man sydd eisiau, ond un anthem fawr: gwir iaith enaid y Cymro. Ond i ddyfod yn ol i dir machlud haul, a sŵn rhuad y dòn, wele'r darlun bychan amherffaith:—

Astud yw'r bryniau mudan—ac uwch ben
Haul coch-boeth sy'n hongian
Ar riniog asur anian,
A llen y dŵr yn llyn o dân.

Fuoch chwi erioed yn sylwi ar

Hen Fagwyr

ar draeth y môr? Nis gwn am ddim yn fwy *weird* na hen adfail ar fin y tywod, mewn man anghysbell ar lan y dòn. Y mae'r muriau'n aros a'r tonau wedi golchi'r cymmrwd yn lan oddi rhwng y meini; y mae tyllau'r ffenestri yn syllu dros y dŵr fel llygaid ysgerbwd; y mae'r *limpet* yn glynu wrth y wal; mil a mwy o fan brenau a chostrelau wedi ei gwasgaru hyd y lloriau gan gynddaredd rhyw hen ystorm; gweddillion y nenfwd yn ddarnau oddiamgylch; gwylanod a môr-adar yn gwawchian yn oer oddiamgylch fel ysprydion y blwyddi gynt; ac yn gyfeiliad i'r cwbl rhu aflonydd y dragwyddol dòn yn tori ar y tywod. Felly am bob sefydliad dynol, pa mor ddinod neu fawreddog bynag y bo, nid yw i sefyll am byth. Y mae tonau amser, sef cyfnewidiadau yn dod yn don 'rol tòn, nes ysgubo'r *bywyd* allan o hono, ac nid oes ond y fagwyr oer yn aros, yn dyst mudan i'r hyn fu unwaith o'i mewn. Beth yw'r hen fynachlogau, ie, beth yw eglwysi pigdyrog aml i wlad erbyn hyn ond adfeilion gweigion ar forlan amser. Nid oes ond yr amlinelliad yn aros; mae'r *bywyd* wedi mynd. Dyna destyn englyn godidog etto, neu rês o bennillion os mynnwch—

Yr Adfail ar y Traeth.

Dyma gynyg i ddechreu, dilyned beirdd Yr Ymofynydd, a diamheu y cawn englynion ereill teilyngach o'r testyn:—

Fe ddaeth gro y traeth i'r trothwy—
wele'r
Wylan drosto'n tramwy;
Hyd y mur a'r aelwyd mwy,
Rhedeg mae'r don ruadwy.

Ychydig o'r *weird* sydd yn marddoniaeth y Cymry i'w gymharu er engraifft a barddoniaeth odidog y

Bardd Gaelaidd Ossian.

Y mae Islwyn wedi cofnodi rhuadau'r ystorm, ond ar delyn Hebreig y mae ef wedi chwareu ei

nodau. Y mae Ceiriog wedi trosglwyddo llawer o ysprydy 'mynyddau mawr' i'w ganiadau, ond nid ydynt iddo ef ond cartrefi Myfanwy neu Alun Mabon. Gadewch i mi ddiweddu am y tro hwn gyda chyfieithiad o ran o Ossian a gymerais ar antur, fel esiampl o wir farddoniaeth anian :—"Adewaist ti dy lwybr glas yn y nefoedd, ti eurwallt fab y ffurfafen. Agorodd y gorllewin ei byrth ; gwely dy orphwysfa sydd yno. Daeth y tonau i syllu ar dy harddwch. Dyrchafant eu penau crynedig. Galwant di yn brydferth yn dy gwsg ; ciliant ymaith mewn braw. Gorphwys yn dy gysgodol ffau, O haul ! a boed dy ddychweliad mewn mwyniant. Ond cyfoded mil o oleuadau yn sŵn telynau Selina !" Eto—"Hyfryd yw llawenydd galar ! fel cafod y gwanwyn, pan y tynera gangen y dderwen, a phan ddyrch y ddeilen ieuanc ei phen."

X.

GOHEBIAETH.

Mri. Gol.—Yr wyf yn Aberaeron yn anadlu awyr iachus y mor, ac wrth ddyfod yma mi ymwelais â'r hen fan lle cefais fy magu. Ond yr oedd yr hen dŷ wedi myn'd, ac nis gallwn ddywedyd fod tŷ wedi bod yno ; ond yr oedd yr ardd yno yn awr a'r hen brenau afalau yno, y rhai blanodd fy nhad er ys haner can' mlynedd yn ol. Mae fy nhad a brawd i mi yn gorwedd er's blynyddau yn mynwent Brondeifi, a mam a chwaer i mi yn gorwedd yn mynwent Eglwys Llanbedr. Mae yr ardal a bron pawb sydd ynddi wedi myn'd yn hollol ddieithr i mi erbyn hyn. Yr wyf yn teimlo serch at yr hen fan lle y buais yn chwareu o dan ofal cariad fy mam ; a mae llawer o gynghorion da fy mam yn swnio yn fy nghlustiau yn awr. Cof genyf fy mod yn myned gyda fy nhad i'r cwrdd i Gapelygroes yn grwtyn ieuanc. Yr oeddwn wedi cael côt o frethyn gwlad ar ol fy mrawd henaf—cot-y-gwtws-fain oedd hi yn cael ei galw ; ac yr oedd y plant, ar ol dyfod allan o'r capel, yn cael difyrwch mawr ar ben fy nghôt i, ac yr oedd hyny yn fy mlino i yn fawr iawn. Ond mae peth yn fy mlino yn awr lawn cymaint a'r gôt-gwtws-fain, Mri. Gol. ; yr wyf yn gweled bechgyn a merched ieuainc yn dyfod i Gwm Clydach, y rhai oeddynt yn aelodau crefyddol gyda'r Undodiaid pan oeddynt gartref, ond yn fuan ar ol dyfod yma maent yn uno a chapelau iawnffyddol. Yr wyf yn methu yn lân a gwybod y rheswm paham mae hyn yn cymeryd lle. A oes bai ar ein gweinidogion ni? Yr wyf bron a chredu ei fod e' ; nid ydynt yn pregethu egwyddorion Undodaidd ddigon i'w hargraffu ar feddyliau y bobl ieuainc. Mae yn gas ganddynt i arddel mai Undodiaid ydynt ar ol dyfod i'r Rhondda. Mae gweled Capel Clydach yn wâg a gwybod fod digon o ferched a bechgyn ieuainc yn y lle wedi cael eu codi mewn capelau Undodaidd yn gwneud blinder mawr i mi. Yr wyf yn credu fod ein gweinidogion yn rhoddi gormodedd o fwyd sych c'r pwlpud. Yr wyf yn credu y dylem ni gael llaeth a mel—tipyn o fwyd gwan i feddwl gwan.

Mi fuais yn Nghapel yr Annibynwyr nos Sul, yn gwrando ar y Parch. T. G. Evans. Fe gymerodd ei destyn

oddiar Matthew x. 10—11. Y peth mwyaf yn ei bregeth oedd rhagoriaeth Crist ar Ioan Fedyddiwr. Pregeth o laeth a mel oedd hi, ac yr oedd y capel yn orlawn, a phob un wedi cael ei foddloni, a dyna beth oedd gyda phob un ar ol dyfod allan o'r capel, "Dyna bregeth dda." Wel, pregeth i'r teimlad oedd hi i gyd; nid oedd dim bwyd cryf ynddi; ac yr wyf yn meddwl y byddai pregeth o'r natur hyn yn ddefnyddiol i ninau fel Undodiaid, yn achlysurol.

J.J.T.

Y DIWEDDAR EVAN JAMES WILLIAMS.

Gosodwyd i ddynion farw unwaith, fel y dywedir. Ond er fod marwolaeth yn drefn natur, mae bron yn mhob achos yn clwyfo'r teimladau, yn neillduol felly pan y syrth yr ieuainc yn ysglyfaeth iddo; mae'n hawddach dygymod ag ef yn achos yr hen, pan mae poen a grym wedi cilio, a bywyd mewn canlyniad wedi ei wneud yn anmhleserus, na phan mae'r dyn neu'r ferch ieuanc yn gwywo yn ngwanwyn oes? Pan y torir y dyn neu'r ferch ieuanc i lawr yn mlodau eu dyddiau, pan mae tymor eu defnyddioldeb yn y byd ond megis dechreu, mae meddyliau a theimladau trist yn cymeryd meddiant o'r fynwes; yn neillduol felly pan mae'r dyn neu'r ferch ieuanc o gyrhaeddiadau uwch a chymeriadau amgenach a chyda dyfodol mwy defnyddiol o'u blaen na'r cyffredin.

Meddyliau a theimladau o'r fath a'n meddianai wrth weled y brawd ieuanc, Evan James Williams, yn dihoeni heb gymaint a phelydryn gwan o obaith am adferiad, a thueddid ni i ofyn yr hen ofyniad, I ba beth y bu'r golled hon? Mab ydoedd i'r bardd adnabyddus, Thomas Williams, Gwarnant. Ar ol gorphen ei gwrs yn yr ysgol elfenol, bu am dipyn o amser yn gwasanaethu fel athraw-ddisgybl yn Ysgol y Bwrdd, Cribyn. Ond nid ar yr alwedigaeth addysgawl oedd ei fryd a'i serch penaf ef, ond ar y weinidogaeth. Felly aeth i Ysgol Barotoawl y Cribyn, lle y bu am oddeutu tair blynedd—hyd haf 1899. Y flwyddyn hono llwyddodd i enill un o'r Ysgoloriaethau (gwerth £75 y flwyddyn am dair blynedd) a gynygir yn flynyddol gan Bwyllgor Coleg Manchester, Rhydychen, i ddynion ieuainc, er eu galluogi i fyned trwy gwrs o astudiaeth er enill un o raddau y cyfryw Brif-ysgol. Ar yr un adeg llwyddodd hefyd i basio *responsions*, yr arholiad cyntaf am y radd o B.A. Aeth ein cyfaill ieuanc i Goleg yr Iesu, Rhydychen, a thra bu yno, ymroddodd mor aiddgar a brwdfrydig i'w efrydiaeth, fel yr aeth trwy amrywiol arholiadau y Brif-Ysgol yn llwyddianus iawn. Yn wir, mae lle i ofni mai i or-waith y mae i ni i briodioli ei farwolaeth gynar. Yr oedd wedi treulio yn agos i dair blynedd yn Rhydychen, pan y gorfodwyd ef i ddychwelyd adref ychydig ar ol gwyliau y Pasc diweddaf. Er pob gofal a thynerwch ar ran ei rieni, gwaelodd yn gyflym ar ol hyn, ac ar yr 16eg o Awst ymadawodd ei yspryd o'i gorff gwan ac eiddil, ac ehedodd at yr hwn a'i rhoes, pan nad oedd ond 21ain oed. Yr oedd yn un o'r nifer luosog o ddynion ieuainc dysglaer eu galluoedd ac uchel eu cymeriadau ydynt wedi

eu codi yn ein gwahanol gynulleidfaoedd yn Ngheredigion yn ystod y deuddeg mlynedd diweddaf, ac wedi dewis y weinidogaeth fel maes eu defnyddioldeb tra yn y byd. Meddai Evan James alluoedd dysglaer ; ac edrychem yn mlaen am yrfa lwyddianus iawn iddo ; a ffyddiog iawn oeddem y llanwai le pwysig yn rhyw adran o'r Eglwys Gristionogol Ryddfrydig yn ystod ei oes. Yr oedd eisioes, er's rhai blynyddau, wedi dechreu pregethu, ac yr oedd yn dderbyniol iawn yn mhob man y bu yn gwasanaethu. Meddai gymhwysderau pregethwr defnyddiol a llwyddianus. Trist yw meddwl ei fod wedi gorfod cilio o'r frwydr mor gynar. Ar ran ein darllenwyr cyflwynwn ein cydymdeimlad dyfnaf a'r tad a'r fam a'r teulu oll yn eu galar dwys. Mae eu gobeithion uchel am ei ddyfodol wedi eu dryllio, ond bydded i'r meddwl a'r cof am ei fywyd prydferth ac ymdrechgar i fod yn ffynhonell o ddyddanwch iddynt yn eu tristwch.

CONGL YR AWEN.

ER COF

Am Mrs. Jenkins, Aeron Villa, Talsarn.

Mam yn Israel gwympodd heddyw,
Gwelir bwlch yn Rhydygwin ;
Gwisgo galar mae yr eglwys,
Wylant am yr anwyl un ;
Gwraig rinweddol, ddoeth, grefyddol,
Wedi cyrhaedd pen ei thaith,
'Roedd yn selog gyda'r achos,
Bu yn ffyddlon amser maith.

Un garedig yn yr ardal
A haelionus i'r tylawd,
Nid a'i neb o'i drws yn waglaw,
Ond tosturiai wrth bob brawd ;
Un yn hoff o wneud cyfiawnder
A phob dyn y carai fod ;
Gostyngeiddrwydd a thawelwch—
Byw'n heddychol oedd ei nhod.

Llawer cynghor, llawer cerydd
Ga'dd rhai ieuainc ganddi hi,
Maent yn perarogli heddyw
Pan mae hi yn mysg y llu ;
Gwag yw'r cartref, gwag yw'r eglwys,
Gwag yw pob man ar ei hol,
Hedeg wnaeth i'r byd tragwyddol,
Ni ddychweli'th mwy yn ol.

Pan yn croesi trothwy Gwynfa,
Yn ei chwrdd 'roedd Ann ei chwaer
Maent hwy yno'n gorfoleddu
Yn nghymdeithas mab y Saer ;
Hoff berth'nasau, peidiwch wylo,
Mae hi heddyw mewn gwell gwlad
Gwell cyfeillion, gwell perth'nasau
Sydd o fewn i dy ein Tad.

Berllan. DAN JENKINS.

DWFN YW'R BYD.

Hallt yw'r mor i bawb a'i profo,
Hallt yw'r byd i bawb a'i caro ;
Dwfn yw'r mor, anhawdd ei blymio,
Dwfn yw'r byd, heb waelod iddo.

I. G. GEIRIONYDD.

ELUSEN.

Y ddaear yw eiddo'r Ion
Holl nwyfau a llu Neifion ;

Lloer, a'i nwyfau, llu'r nefoedd,
Eiddo y cwbl ddaw ac oedd.
Ei radau ymddiriedodd
Dan ei rhif, Duw i'n a'u rhodd.
Nid ein heiddo ni ydynt,
Ei eiddo Ef heddyw y'nt :
O'i drysawr gwerthfawr ar g'oedd
Torwn eisiau teyrnasoedd,
Na chynilwch, anwylyd,
Tal Duw gost y tlawd i gyd.

DEWI WYN O EIFION.

ADFAIL HEN BALAS.

Trowd ei gain lydain aelwydau—yn erddi
A gwyrddion weirgloddiau ;
A mynych yr ych o'r iau
A bawr lawr ei wych barlyrau.

DAFIS CASTELLHYWEL.

ADOLYGIAD.

Dywedir yn fynych gan feirniaid angharedig fod coleddu y syniadau Undodaidd y cam nesaf i Anffyddiaeth, ac nad yw y ffydd Undodaidd o'r un gwerth ond magwrfa Anffyddwyr. Y mae gweithiau anghymarol Dr. Channing ac eraill, i ryw fesur, wedi bod yn foddion i chwalu ychydig o'r gred hon, a bydd y llyfr hwn* eto yn ychwanegu at eu dylanwad yn yr un cyfeiriad. Yr ydym yn ddiolchgar i Dr. Herford am dano : y mae yn ysgrifenu allan o lawnder ei galon a'i ffydd ddiysgog, a'i brofiad cyfoethog fel gweinidog, a gesyd y pynciau sydd yn blino ein bywydau i gyd yn y fath oleuni, a chyda'r fath symlrwydd nes y mae yn iechyd ac yn nerth ysprydol i'w ddarllen. Dywed yr awdwr mai "yr agos a'r syml ydyw y pethau olaf sydd yn dylanwadu ar y meddwl. Mae dyn yn gyson am ddechreu y pen mwyaf i bob peth, ond y drefn iawn ydyw o'r lleiaf i'r mwyaf, o'r agos i'r pell, o'r hyn y gellir ei wybod i'r hyn nas gellir ei wybod, o olwg i ffydd." Hon ydyw ei safbwynt drwy y llyfr, a chymhwysa hi at bynciau mawrion dyledswydd, crefydd, natur a bywyd,—beth ydyw, beth ydyw ei amcan, a beth ydyw ei ddiwedd ; pynciau am ddyn a Duw, am amser a thragwyddoldeb. "Clywsoch ddywedyd gan y rhai gynt, na ladd," ond mae Iesu Grist yn cymeryd gafael yn y mater yn y pen lleiaf, ac yn dweyd, na ddylech, hyd yn nod, fyned allan o'ch cof. Mae yn demtasiwn i ddyfynu llawer, ond nis gallwn basio heibio yr hyn a ddywed yr awdwr yn ei ddull mwyaf hapus, wrth egluro y safbwynt mae wedi osod i lawr yn nameg y Samaritan Trugarog. "Dychmygaf weled yr offeiriad ar ol myned adref yn dywedyd wrth ei deulu y fath olygfa druenus a welodd—dyn tlawd wedi ei ysbeilio ac haner ei lofruddio yn gorwedd wrth ochr y ffordd—y fath olygfa, fel yr oedd arno ofn myned y ffordd hono mwy ; teimlai y dylai rhyw gymdeithas gael ei chychwyn er cyfarfod a'r fath achosion, y rhai oedd mor gyffredin ar y ffordd hono i Jericho ; yr oedd yn rhaid cael pwyllgor o'r Ysgrifenyddion a'r Phariseaid blaenaf, a gwnai ofyn i'r

* "The Small End of Great Problems." By Brooke Herford, D.D. Longmans, Green and Co. 6s. net.

Archoffeiriad Caiaphas a ddeuai yn Lywydd y Gymdeithas, a byddai rhaid cadw byddin reolaidd yn nghyd a meddygon ar y ffordd hono."

"Ond yn y cyfamser beth am y clwyfedig tlawd? Yn ffodus iddo ef, fe ddaeth y Samaritan y ffordd hono, ac yr oedd yn un ag oedd yn credu mewn cymeryd gafael yn y pwnc o ddioddefaint dynol yn y pen lleiaf—yr hyn olygai, helpu y truan oedd yn gorwedd yn y fan hono—rhoddi iddo beth o'r olew a'r gwin oedd yn ei logell, a'i osod ef ar ei anifail ei hun, er fod yn rhaid iddo ef gerdded. Dyna ydyw gwir egwyddor pob gwir ddyngarwr."

Cynhwysa un-ar-hugain o bregethau, ond heb eu testynau, ac yn mhlith y cyfryw ymdrinia a'r pynciau dyddorol, "Calon ddynol Duw," "Nerthoedd iachusol Duw," "Dirgelwch poen," "Dirgelwch daioni." Ni dderbynia'r duwinydd rhyw lawer o foddhad wrth ddarllen y pregethau hyn os mai chwilio am dduwinyddiaeth yn unig y bydd efe; ond am y rhai hyny ag sydd yn sychedu am grefydd a ddeil i fyw ac a ddyrchafa eu bywyd yn y byd, ac a agora'r ffordd i olygiadau cliriach am wirioneddau mawrion Duw, gwnant yn ddoeth i droi i dudalenau y llyfr hwn, ac fe gydnabyddant, gyda'r ysgrifenydd eu dyled o ddiolchgarwch i'r prophwyd hwn o eiddo Duw.

Clywn, gyda galar, fod Dr. Herford yn rhodio yn "swn yr afon," ac nas gall fod ond ychydig ddyddiau cyn y bydd "trwy ei dyfroedd dyfnion" yn iach yn y llawenydd tragwyddol, am yr hwn y mae wedi bod yn llefaru gyda nerth a dylanwad mawr am haner can mlynedd.

PRIODAS.

Yn Swyddfa'r Cofrestrydd, Awst 23ain, o flaen Mr. J. E. Lloyd, unwyd Mr. Dd. Evans, Manglas, a Miss Martha Davies, Castell—y ddau o blwyf Pencarreg—mewn glan briodas. Pob cysur iddynt yn eu cylch newydd.

MARWGOFION.

GORPHENAF 10fed, yn 27ain oed, cludwyd gweddillion marwol Elizabeth Rees, Dolau Llethi, Llanarth, i fynwent Bwlchyfadfa. Yn ystod ei hoes fer llwyddodd i enill edmygedd cymydogaeth eang, ac mor hyfryd ydyw clywed pobl yn siarad yn uchel am ddynion ieuainc ein heglwysi. Ar y dydd uchod gwasanaethodd Mr. Edwards, Brynrhiwgaled, yn y tŷ, a Mr. Jenkins, Bwlch, yn y capel ac ar lan y bedd Caffed y priod a'r perthynasau y nerth angenrheidiol i ganfod yr ochr oleu i'r cwmwl.

AWST 13eg, Mary Evans, merch fechan Daniel a Mary Evans, Glanrhyd, Llanfairclydogau, yn 14 mis oed. Claddwyd ei gweddillion yn

Capel Erw, Cellan, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. R. C. Jones, Llanbedr.

AWST 16eg, yn 21 oed, bu farw Evan James Williams, Gwarnant, ger Cwrtnewydd, ar ol amryw fisoedd o gystudd. Rhoddir manylion hanes ei fywyd mewn colofn arall. Dydd Mercher canlynol hebryngwyd ei weddillion i fynwent Capelybryn, gan dyrfa luosog. Yn unol a dymuniad yr ymadawedig, pregethwyd yn y tŷ gan ei hen athraw, y Parch. D. Evans, Cribyn; gweddiwyd wrth y drws gan weinidog ieuanc y Llwyn, yn dyner iawn; ac awd trwy y gweddill o'r gwasanaeth gan y Parch. J. Davies.

AWST 24, Thomas, mab David Jones, East Avenue, Aberdar, a fu farw yn 19 oed, trwy ddamwain a gafodd gyda'r *bicycle* yr Iau blaenorol. Y Mercher canlynol daearwyd ei weddillion yn y Gladdfa Gyhoeddus; R. J. J. yn gwasanaethu.

AWST 25ain, yn nhŷ ei fam, Abernantygroes, Cwmbach, bu farw Wm. David, yn 41 mlwydd oed. Derbyniodd bob tynerwch a gofal ar law ei berthynasau, ond yr oedd yn amlwg nad oedd gwellhad i fod y tro hwn. Y dydd Gwener canlynol daearwyd yr hyn oedd farwol o hono yn Cemetery, Aberdar. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan D. E., Cwmbach, yn cael ei gynorthwyo yn y Cemetery gan y Parchn. R. J. Jones, M.A., Aberdar; D. M. Davies, (A.), Cwmbach, a H. A. Davies, (A.), Cwmaman. Caffed y fam oedranus. a'r weddw ieuanc, a'r perthynasau oll deimlo gwerth y tangnefedd sydd o Dduw a sicrwydd Efengyl Iesu Grist.

MEDI 3ydd, yn 53 oed, Mary Evans, priod Evan Evans, Cwmpib. ger Cribyn. Yr oedd i bob ymddangosiad yn holliach hyd y prydnawn Llun blaenorol, pryd y tarawyd hi yn hollol ddirybudd gan y parlys. Parhaodd bywyd ei chorff hyd y Mercher canlynol, ond ni ddaeth i ymwybodolrwydd drachefn. Yn ei marwolaeth mae ei phriod wedi colli cymhar anwyl, yr ardal gymydoges garedig a chymwynasgar, a'r achos yn Nghapelygroes aelod ffyddlawn, a theimlir cryn chwithdod ar ei hol. Nerth a gaffo ei phriod i edrych ar yr ochr oleu i'r cwmwl. Hebryngwyd ei gweddillion i fynwent Capelygroes y Sadwrn canlynol gan dyrfa luosog. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle, ac ar lan y bedd gan y Parch. L. Williams.

MEDI 3ydd, Mrs. James, Teifyside Tannery, Cwmanne, ger Llanbedr, yn 57 mlwydd oed, wedi cystudd maith a chaled. Yr oedd yr ymadawedig yn ferch i'r diweddar Mr. a Mrs. Davies, Llwynifan, Cellan, a chroesodd y geledig gul adwy yn fuan ar ol ei diweddar briod Mr. John James, Tanner, Cwmanne. Goroeswyd hi gan ddau fab, Mr. John Saunders James, a garia yn mlaen alwedigaeth ei dad, a Mr. David James, ynghyd a brodyr a chwiorydd lawer, a chydymdeimlir a hwy yn ddwys yn eu hadfyd. Claddwyd ei gweddillion y Sadwrn canlynol yn mynwent Eglwys St. Pedr, a daeth tyrfa luosog yn nghyd i ddangos eu parch iddi, a'u cydymdeimlad a'r perthynasau adawyd i alaru ar ei hol. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan R. C. J., ac yn yr Eglwys gan y Parch. D. J. Jones, Curad. Y Sul canlynol cynhaliwyd gwasanaeth coffadwriaethol yn Mrondeifi, y Gweinidog yn pregethu. Caffed y galarwyr nerth i alaru'n gymhedrol.

MEDI 9fed, yn 61 mlwydd oed, Hannah D. Lloyde, Graig, Trebanos, wedi cystudd caled. Y Sadwrn dilynol cynhaliwyd gwasanaeth yn y Graig, (ei chyrchfan addoliadol), ac oddiyno i Gladdfa yr Alltwen. Gwasanaethwyd gan y Parch. T. J. Jenkins.

MEDI y 14eg, yn 87 mlwydd oed, Hannah Jones, gweddw y diweddar John Jones, Banc, Llanybyther, gerllaw Llanfihangel-rhosycorn. Claddwyd y Mercher canlynol yn nghladdfa'r teulu yn mynwent Capelygroes; a gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. J. Davies, Alltyplacca, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. R. C. Jones, Llanbedr, a J. Davies, Gwernogle. Yr oedd yr angladd yn fawr yr holl ffordd, o'r Banc i'r gladdfa,

naw milldir o bellder ; ac yr oedd hyny yn brawf o'r parch a deimlid tuag at yr ymadawedig ar gyfrif ei rhinweddau lawer. Gwnaeth y goreu o'r ddau fyd. Yn moreu ei hoes cerddodd lawer i'r gwasanaeth yn Nghapelygroes, a bu'n ffyddlon yn Nghwmwrdu tra y parhaodd y gwasanaeth yno. "Wedi marw yn llefaru eto."

MEDI 24ain, yn 36 mlwydd oed, Jenkyn Evans. ail fab Mr. Thomas Evans, Tynant, Ciliau Aeron. Nid bob amser y ceir dyn ag iddo gymaint o barch ag oedd i'r ymadawedig. Yr oedd o dymer mor siriol a charedig, a gwen bob amser ar ei wynebpryd, fel yr oedd iddo gylch helaeth o gyfeillion. Yn brawf o'r parch oedd iddo a'r ymddiriedaeth oedd gan ddynion ynddo cafodd ei wneud yn Ffordd Arolygydd ychydig flynyddau yn ol, yr hon swydd wasanaethodd i foddlonrwydd hyd tua thri mis yn ol pryd y cafodd ei luddias gan afiechyd. Claddwyd ei ran farwol yn mynwent Eglwys Llanfihangel Ystrad y Sadwrn canlynol, pryd y daeth nifer luosog iawn i dalu iddo y gymwynas olaf. Cyflawnwyd y rhanau arweiniol o'r gwasanaeth yn y ty gan y Parch. J. Davies, a phregethwyd gan y Parch. L. Williams. Gadawodd dad, tri brawd a saith o chwiorydd i alaru ar ei ol, heblaw nifer luosog o berthynasau.

HANES YR EGLWYSI.

PRINDER LLYFRAU EMYNAU YN EIN HEGLWYSI.—Un o ddiffygion amlycaf ein heglwysi, ydyw prinder llyfrau emynau yn y seti. Ni ellir disgwyl i'r canu fod yn effeithiol os na fydd gan bob cerddor o leiaf, a phwy sydd heb fod yn gerddor yn awr, lyfr emynau yn ei law. A dylasai fod yn mhob eglwys haner cant neu ragor o lyfrau emynau yn perthyn iddi. Dylasem wneud pob peth ag sydd yn tueddu i wneud y gwasanaeth yn fwy effeithiol. Gyda'r amcan hwn mewn golwg y mae Mr. D. Eiddil Jones yn foddlon gwerthu *Perlau Moliant* am 1s. 6c. yr un a thala y cludiad am sypynau o 20 ac ychwaneg. Hyderwn y gwna ein heglwysi ddal mantais ar y cynygiad hwn.

Y GRAIG A GELLIONEN.—Cafwyd Gwyl Dê flynyddol ar y mynydd eleni eto fel arfer, yn llwyddianus rhagorol. Chwareuodd Seindorf Arian Trebanos i lawenu'r wyl. Melus, moes eto.

ABERYSTWYTH.-Gwneir parotoadau gyferbyn cychwyn y gwasanaeth yma y *term* nesaf. Mr. A. Joinson ydyw Cadeirydd y pwyllgor, a Mr. D. J. Davies, B.A., ydyw yr Ysgrifenydd, oddiwrth y rhai y gellir cael copiau o'r adroddiad diweddaf. Taer ddymunir ar ein brodyr a'n merched ieuainc sydd yn cychwyn am y tro cyntaf yn y Coleg wneud hyny yn hysbys i'r personau uchod.

CWMBACH.—Dydd Iau, Medi 4, gwahoddwyd aelodau Ysgol Sul y lle uchod, a lluaws o gyfeillion eraill i *picnic* gan Mr. a Mrs. Evans, yn Cefnpennar, eu preswylfod dros yr haf. Wedi cyrhaedd copa'r mynydd yr oedd gwledd yn iawn wedi ei pharotoi ar y *lawn* o flaen y ty, a chredwn i bawb fwynhau eu hunain wrth y bwrdd yn y modd goreu. Wedi hyn awd i'r cae cyfagos, a golygfa bleserus oedd gweled hen ac ieuainc yn mwynhau y gwahanol chwareuon cystal. Cafwyd lluniaeth eilwaith, ac yna canodd y plant amryw donau o'r *Perlau*, a'r cwmni yn

uno i ganu "O fryniau Caersalem," ac amryw donau eraill. Diolchwyd yn wresog i Mr. a Mrs. Evans am eu caredigrwydd yn ein gwahodd y flwyddyn hon eto, ac mewn atebiad sicrhaodd Mr. Evans ni mai pleser calon oedd iddo ef a'i wraig i allu bod o wasanaeth i'r achos yn y Cwmbach. Teg yw hysbysu hefyd i Mrs. Evans ar adeg y Coroniad anrhegu pob aelod o'r Ysgol Sul a Beibl hardd er dathlu'r amgylchiad pwysig hwnw. Y mae caredigrwydd fel hyn yn cael ei wir werthfawrogi genym, a dymunwn o galon hir oes a phob dedwyddwch i'n cyfeillion caredig.

SYCHBANT.—Nos Sul, Medi 14eg, talodd Ysgol Sul Capelybryn ymweliad a'i chwaer ysgol yn y lle hwn, pryd y cafwyd cyfarfod hwylus iawn. Adroddwyd y bedwaredd benod ar ddeg o Luc gan yr ymwelwyr, a holwyd hwynt arni gan y gweinidog, y Parch. John Davies. Aeth pawb trwy eu gwaith i foddhad yr arholwr, ac yn ymddangosiadol, i foddhad y gwrandawyr. Yr unig beth oedd yn tynu yn ol oddiwrth y pleser cyffredinol oedd nad oedd lle, na thebyg i hyny, yn yr adeilad bychan i aelodau yr ysgol a'r gwrandawyr. Pryd y ceir capel yn y lle hwn? Mae angen mawr am dano.

CYMANFA GANU CEREDIGION.—Cynhaliwyd pwyllgor y Gymanfa hon am y flwyddyn nesaf yn Capelybryn, prydnawn dydd Sul, Medi y 7fed, pryd y daeth dau gynrychiolwr yn nghyd o bob capel yn y rhanbarth, ond Rhydygwin. Cymerwyd y gadair gan Cadben Davies, Rhydowenfach. Penderfynwyd (1) Fod y Gymanfa y flwyddyn nesaf i gael ei chynal yn Nghaerfyrddin ar yr ail ddydd Llun yn mis Mehefin, ac yn (2) fod y Parch. David Evans, Cwmbach i fod yn arweinydd. Dewiswyd emynau, tonau ac anthem (*Hallelujah Chorus*), fel arferol. Gan fod amser appwyntiedig y swyddogion wedi dyfod i ben eleni, etholwyd rhai newyddion gan y pwyllgor, neu yn hytrach ail-etholwyd yr hen rai, gyda'r gwahaniaeth hyn fod Mr. J. R. Jones, Cwrtnewydd yn cymeryd lle Mr. George Thomas, C.M., fel ysgrifenydd, a Mr. Thomas Davies, Y Felin, Cwrtnewydd, yn cymeryd ei le yntau fel trysorydd. Dewiswyd y Parch. E. O. Jenkins fel llywydd y boreu yn Nghaerfyrddin, a'r Prifathraw Evans fel llywydd y prydnawn.

YSGRIFENA "Meurig" lythyr maith a grymus yn condemnio gwaith y pwyllgor cerddorol am benderfynu cynal y gymanfa y flwyddyn nesaf yn Nghaerfyrddin. Dyga amryw resymau dros beidio ei chynal ond yn y cylch Undodaidd. Dywed fod i'r gymanfa ei lle a'i dylanwad yn y cylch hwnw, ond wrth ei throtian i leoedd anadnabyddus nad yw ei dylanwad yn fwy na phe buasech yn ysgrifenu eich enw ar wyneb y dwfr. Gofyna, ai llais yr eglwysi ydyw hwn, ac a yw yn rhy ddiweddar i ddadwneud y penderfyniad anoeth.

HEN-DY-CWRDD, ABERDAR, A'R GWEINIDOG.—Yn yr *Evening Express*, Caerdydd, am y 9fed o Fedi, ymddengys erthygl ddyddorol ar yr uchod. Ffurfia un o gyfres o erthyglau cyffelyb ar Eglwysi a Chapelau Cymru yn nghyd a'u gwaith a'u haddoliad a ymddangosant yn y newyddiadur crybwylledig. Rhoddir amlinelliad o hanes yr eglwys o'i chychwyniad hyd at sefydliad y gweinidog presenol, y Parch. R. J. Jones, M.A. Yna â yr ysgrifenydd yn mlaen i siarad am Mr. Jones ei hunan, a llonir ein calon wrth weled y modd y gwna hyn. Nis gallasai yr Undodwr mwyaf selog siarad yn fwy parchus nac yn fwy uchel am y dyn ei hun, am ei fywyd diwyd a didwyll, ac am ei waith amrywiol a gwerthfawr mewn gwahanol gyfeiriadau. Rhoddir gair am y Parch. W. James, B.A., Y.H., Llandyssul, yn rhinwedd y ffaith ei fod wedi bod yn llanw lle Mr. Jones am yn agos i saith mlynedd o 1872—79. Da iawn genym weled Capel Undodaidd yn cael sylw a lle yn y modd hwn yn mhlith capelau ac eglwysi iawnffyddol. Mae yn dangos arwyddion yr amserau, ac yn mynegu yr ysbryd iawn.

CASTELLNEDD.—Mae o'n blaen bregeth ardderchog gan y Parch. W.

Tudor Jones, F.R.G.S., a draddodwyd ganddo yn ngwasanaeth coffadwriaethol y diweddar Miss Rowland yn yr Eglwys Gynulleidfaol Gnoll Rd., Castellnedd, Mehefin 5ed, 1902. Yr oedd Miss Rowland yn un o ferched goreu y dref, yn perthyn i hen deulu Undodaidd parchus a defnyddiol, ac wedi cysegru ei bywyd i helpu y rhai nad oeddent wedi bod mor ffodus a hi ei hun o ran amgylchiadau. Yr oedd yn aelod o'r Eglwys Undodaidd yn High Street, Abertawe, ond nid oedd un sect, na chredo nac eglwys yn gwneud un gwahaniaeth i'w chydymdeimlad a'i haelioni. Yr oedd, fel y dywed Mr. Jones, yn debyg i Iesu Grist, gan fod ei syniad am grefydd yr uwchaf posibl—cariad at Dduw a chariad at ddyn. Mae y bregeth yn deyrnged *noble* i gymeriad *noble*.

CAPEL Y GRAIG, ABERDAR.—CYFARFOD SEFYDLU. — Dydd Mawrth, Medi 23ain, am 3.30. cynhaliwyd cyfarfod neillduol yn Nghapel Seisneg Aberdâr er ordeinio y Parch H. Fisher Short, o Home Missionary College, Manchester, yn weinidog y lle. Cymerwyd y rhan ddefosiynol gan y Parch. R. J. Jones, M.A., rhoddwyd y siars i'r gynulleidfa gan y Parch. John Ellis, Llundain, a'r siars i'r gweinidog gan y Prifathraw Gordon, Manchester. Yn yr hwyr am 6.30 cynhaliwyd cyfarfod i groesawi y gweinidog newydd. Cymerwyd y gadair gan Lieut.-Col. Phillips, a siaradwyd yn fyr ac i bwrpas gan y cadeirydd, y Prifathraw Gordon, y Parch. John Ellis, L. N. Williams, Ysw. (ar ran y gynulleidfa), Miss George (arolygydd yr Ysgol Sul), a'r Parchn. R. J. Jones, W. J. Phillips, D. J. Williams, David Rees, David Evans, ac ereill. Atebwyd gan y gweinidog newydd, Mr. Short. Gwelsom hefyd yn bresenol yn y cyfarfodydd y Parchn. J. J. George a J. Morgan Jones, M.A. (A), Mri. John Evans, B.A., a Simon Jones, B.A., Manchester, a derbyniwyd llythyrau yn datgan eu hanallu i fod yn bresenol oddiwrth, Carslake Thompson, Ysw., Caerdydd, a'r Parchn. W. Copeland Bowie, W. Tudor Jones, F.R.G.S., a J. P. Kane. Canwyd anthem ac unawdau gan y cor ac aelodau y cor yn y ddau gyfarfod. Yr oedd cyfarfod y prydnawn yn un hynod effeithiol yn ei ddylanwad ar y gynulleidfa. *Awfully impressive* meddai y proffwydi profiadol; *most inspiring* meddai'r ieuanc gobeithiol. Teimlai pawb wrth wrando ar y siaradwyr fod yna ryw gysegredigrwydd yn yr undeb ym rhwng gweinidog ac eglwys. Hwylia Mr. Short o dref fyglyd Sheffield, tref enwog, medde nhw, am ei phroffwydi anghydffurfiol, ond er yn dyfod o wlad y mwg y mae Mr. Short yn feddyliwr clir, yn siaradwr rhwydd a bywiog, ac mor llym ei feddwl a chyllell oreu y dref a'i magodd. Wedi ei ddwyn i fyny yn Fethodist, ac wedi llawer blwyddyn o waith da fel pregethwr lleygol yn yr enwad hwnw, darfu iddo weled yn Undodiaeth ffydd mwy cyson a gwirioneddau mawr bywyd fel y darllenir hwy yn ngweithredoedd Duw, a'r ffydd hono a gofleidiodd. Dymunwn iddo gysylltiad hir a'r eglwys yn Aberdâr. Y mae eisioes wedi gwneud cyfeillion mynwesol yn y dref a'r ardal; y mae adroddiadau o'i bregethau wedi ymddangos fwy nag unwaith ar dudalenau y papurau lleol, a hyderwn yr â yn mlaen i wneuthur yr anwybodus yn wybodus, yr anystyriol yn ystyriol, a'r annuwiol yn dduwiol a da. Llwyddiant iddo ac i eglwys ei ofal.—AP S.

ALLTYPLACA.—Y mae yn llawenydd genym allu llongyfarch Mr. Abel Edwin Jones, B.Sc., mab ieuengaf Mr. a Mrs. Jones, Penralltnewydd, ar waith Cynghor Coleg y Brifysgol, Aberystwyth, yn ei appwyntio yn Ddarlithydd cynorthwyol mewn amaethyddiaeth a thirfesuriaeth. Llwyddiant fyddo eto yn ei ddilyn.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gomerian Press, Llandyssul.